# Talentau Gobaith

## Grymuso cymunedau yn Zimbabwe trwy hyfforddiant a chefnogaeth

Apêl Undeb Bedyddwyr Cymru 2023-24

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales




### Cefndir

Gwlad wedi ei lleoli yn Neheubarth Affrica yw Gweriniaeth Zimbabwe gyda phoblogaeth o tua 15 miliwn. Daeth yn wlad annibynnol pan gyhoeddodd llywodraeth leiafrifol wyn Ian Smith annibyniaeth oddi wrth y DU yn 1965. Fodd bynnag, roedd y boblogaeth ddu fwyafrifol yn parhau i gael eu gormesu hyd nes 1980 pan gynhaliwyd yr etholiadau cyntaf ar gyfer y boblogaeth gyfan.

Arlywydd Zimbabwe rhwng 1987 a 2017 oedd Robert Mugabe. Yn y cyfnod hwn roedd lluoedd diogelwch y wladwriaeth yn dominyddu'r wlad, gyda throseddau hawliau dynol yn gyffredin.

Roedd yr economi hefyd yn dioddef, gyda chyfnodau o dwf isel neu gyfyngol, gorchwyddiant a diweithdra uchel. Yn dilyn ffurfio llywodraeth unedig yn 2008, gwellodd yr economi rhyw gymaint ond mae Zimbabwe yn parhau i fod yn un o wledydd tlotaf y byd.

### Gwaith Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe

Dechreuodd Cymorth Cristnogol weithio yn Zimbabwe yn yr 1980au, gan ganolbwyntio fwyaf ar chwe rhanbarth, yn cynnwys Dwyrain Mashonaland.

Trwy weithio gydag a thrwy bartneriaid lleol, mae'r elusen yn rhoi llawer o bwyslais ar adeiladu gwydnwch y bobl leol yn wyneb patrymau ansicr y tywydd a effeithir gan newid hinsawdd.

Mae cryfhau merched yn agwedd allweddol o'r gwaith hwn, yn ogystal â helpu cymunedau tlawd i gyrraedd y farchnad mewn ffyrdd teg.

Mae prosiect BRACT yn un esiampl o sut mae'r gwaith hwn yn gwneud newid cadarnhaol i fywyd pobl ar y ddaear.

Mae BRACT (Building Resilience through improving the Absorptive and Adaptive Capacity for Transformation of at-risk communities) yn gweithio yn adrannau Mutoko a Mudzi o Mashonaland a Cymorth Cristnogol yw'r prif bartner yn y gwaith. Trwy hyfforddiant mewn gwahanol dechnegau ffermio, mae wedi helpu teuluoedd i fod yn fwy gwydn yn wyneb siociau tywydd, yn ogystal â'u helpu i arallgyfeirio eu ffrydiau incwm, gan eu gwneud yn llai dibynnol ar amaethyddiaeth, sy'n gallu cael ei anrheithio cymaint gan dywydd garw.



cymorth cristnogol

**Mae'r tair stori sy'n dilyn yn enghreifftiau o sut y mae bywydau pobl wedi eu trawsnewid trwy brosiect BRACT.**



**Taindonzwa Kapfudzaruwa**

Mae Taindonzwa Kapfudzaruwa yn nain i saith sy'n byw yn Adran Mudzi. Yn ogystal â gofalu am ei hwyrion oherwydd bod eu rhieni yn gweithio yn Harare, prif ddinas Zimbabwe, a De Affrica, mae Taindonzwa hefyd yn gofalu am ei gŵr anabl ac yn rheoli fferm y teulu.

Wrth edrych yn ôl ar ba mor anodd oedd hi i ffermio, mae Taindonzwa yn gresynu: **'Dim ots pa mor galed oeddem ni'n gweithio doeddem ni ddim yn gallu gwella'r cynhyrchiant ac ambell i flwyddyn roedd y glawogydd gwael yn golygu nad oeddem yn medi unrhyw beth o gwbl.'** Mae'n deall mai'r patrymau tywydd sydd wedi eu heffeithio gan newid hinsawdd sydd wedi gwneud tyfu bwyd mor heriol. Fodd bynnag, mae gweithio gyda BRACT wedi trawsnewid ei bywyd.

Er ei bod yn cyfeirio ati ei hun fel oedrannus, roedd Taindonzwa yn awyddus i dderbyn hyfforddiant ar ddulliau newydd o ffermio gan BRACT. **'Er fy mod i'n ffermwr ers 1978, doeddwn i'n gwybod fawr am ffyrdd newydd o dyfu cnydau a chadw da byw. Rwyf erioed wedi dymuno dysgu mwy am ffermio oherwydd dyma fy angerdd,'** eglura.

Trwy'r hyfforddiant, dysgodd sut i dyfu gwahanol gnydau a sut i ddefnyddio technegau tyfu gwahanol, fel ffermio cadwriaethol, dulliau organig a sut i reoli plâu. Un cnwd yn benodol a ddysgwyd iddi am ei bwysigrwydd oedd y melon Kalahari cynhenid sydd yn hynod sychder-wydn, nodwedd allweddol mewn rhanbarth sych. Yn flaenorol, defnyddid y melon i fwydo gwartheg yn unig ond mae hi nawr wedi dysgu y gellid gwerthu'r hadau er mwyn gwneud hufen cosmetig. **'Mewn gwirionedd mae'n gnwd gwerthfawr ac eto'n tyfu'n hawdd iawn yn ein hardal,'** eglura Taindonzwa.

Mae'r cnwd hwn wedi ychwanegu ffrwd incwm allweddol i arian y teulu ac maent yn ei ddefnyddio i brynu deunydd to i'w cartref ac i adeiladu cwt ieir gwell.

Dim ond canmoliaeth sydd gan Taindonzwa i brosiect BRACT: **'Mae'r prosiect wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn y gymuned yn enwedig i'r rhai sy'n awyddus i ddysgu pethau newydd. Fe gawsom hyfforddiant hynod o ddefnyddiol ac fe hoffwn i petawn i wedi gallu mynychu mwy. Rwyf wedi gallu newid y ffyrdd yr wyf yn ffermio, hyd yn oed yn fy oed i. Caiff y wybodaeth hon ei rannu ag eraill a golyga hynny y bydd yr holl gymuned yn parhau i wella ac un diwrnod bydd newyn yn perthyn i'r gorffennol.'**







## Blessings Muzori

Pan roedd ffermio yn ymdrech oherwydd yr hinsawdd anrhagweladwy, roedd Blessings Muzori yn gweld bywyd yn anodd. Er mwyn goroesi, bu raid i'w gŵr symud i'r ddinas i chwilio am waith. **'Roedd pethau'n galed,'** cofiodd Blessings. **'Roeddwn yn byw o ddydd i ddydd ac yn gorfod disgwyl i ddarpariaeth gael ei anfon gan fy ngŵr.'**

Roedd gorfod gofalu am y fferm ar ei phen ei hun yn ychwanegu at y pwysau wrth i gynaeafu fynd yn fwyfwy anodd. A hyd yn oed pan oedd yn gallu tyfu cnydau, roedd cael prisiau da yn y farchnad yn anodd hefyd. **'Roeddem wedi cyrraedd y pwynt y byddai rhaid inni fegera am fwyd gan ein cymdogion,'** ychwanegodd Blessings.

Pwysau ychwanegol a roddwyd arni oedd bod ei phriodas dan straen gyda'i gŵr yn byw ymhell oddi wrth ei deulu. **'Roedd pethau'n anodd a phoenus, doedd gennym ni ddim bywyd da,'** cwynodd.

Fodd bynnag, rhoddodd brosiect BRACT yr offer i Blessings allu trawsnewid ei bywyd. Agwedd allweddol o'r trawsnewid hwn yw sefydlu grŵp cynilo a benthyg lleol - ISAL - ble y daw pobl leol at ei gilydd i safio'n rheolaidd ac yna'n benthyg arian i aelodau'r grŵp. Gan mai prosiect lleol yn cael ei redeg gan yr aelodau eu hunain yw hwn, mae'r holl log ac elw yn aros yn yr ardal leol.

Gofynnodd grŵp ISAL Blessings am help BRACT i brynu peiriant gwasgu olew ar gyfer blodau haul, soya ac olew cnau daear. Talodd ISAL 30% o'r gost gyda'r arbedion yr oeddent wedi eu safio eu hunain, a BRACT yn cyfrannu 70%. Mae'r busnes newydd wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda'r grŵp yn gallu gwerthu sawl cynnyrch yn y farchnad leol.

Mae Blessings yn canmol ei grŵp ISAL: **'Rydym yn trafod pa brosiectau i fuddsoddi ynddynt ac yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau ein nodau fel grŵp. Mae cysyniad yr ISAL wedi'n helpu i brynu eitemau ac adeiladu pethau yn ein cartrefi. Doeddem ni ddim yn adnabod ein gilydd cyn y prosiect ond ers inni ffurfio'r grŵp, rydym yn ffrindiau gorau.'**

Mae Blessings hefyd wedi cael hyfforddiant mewn technegau ffermio gan BRACT. Yn ddiarwybod iddi, roedd gan y gymuned adnoddau gwerthfawr yn tyfu'n wyllt yn yr ardal. Roedd ffrwythau gwyllt a chynnych arall ar gael i'w casglu a'u gwerthu. Er enghraifft, llwyn yr atgyfodiad - planhigyn hynod sychder-wydn - a zumbani, y gellid eu defnyddio i greu tê llysieuol. Mae'r ddau blanhigyn yn denu prisiau uchel gan brynwyr sy wedi eu rhoi mewn cysylltiad gyda chymuned Blessings trwy BRACT.



**'Mae BRACT wedi fy nhrawsnewid,'** meddai Blessings. Mae wedi ei dewis i fod yn brif ffermwr yn ei chymuned, sy'n golygu ei bod yn helpu i hyfforddi eraill yn y technegau ffermio gwahanol. Mae ei gŵr hefyd wedi dychwelyd adref ac ynghyd â'i llwyddiant newydd, mae bywyd yn llawer gwell.





## Netsai Kateera

Cyn clywed am brosiect BRACT, roedd Netsai Kateera - mam i dri o bentref Nhire, Mutoko - yn ei chael hi'n hynod o anodd gwneud bywoliaeth o'r tir. Roedd y teulu'n aml yn ei chael hi'n anodd talu ffioedd ysgol y plant ac ar adegau roedd pethau'n waeth na hynny. **'Weithiau doeddem ni ddim yn gallu bwydo'r plant na wynebu'n cyfrifoldebau dyddiol,'** meddai Netsai.

Roedd y teulu'n ffermio a gwneud brics ond oherwydd y tywydd anrhagweladwy a marchnad sâl ar gyfer y brics, roedd bywyd yn galed iawn. Rhoddodd BRACT obaith iddynt am fywyd gwell, fodd bynnag.

Tra bo BRACT wedi hyfforddi Netsai mewn technegau ffermio gwahanol, gan roi'r offer iddi allu ffermio mewn hinsawdd galed, mae hefyd wedi dewis gwneud newid mawr yn ei bywyd. Sylweddolodd mai un o anghenion ei chymuned oedd am weithwyr metel, felly penderfynodd Netsai hyfforddi fel weldar. Er mai fel swydd dynion y gwelir weldio yn draddodiadol, ymunodd wyth merch arall gyda Netsai ar y cwrs. **'Rwy'n credu mewn rhannu dyletswyddau yn gyfartal rhwng dynion a merched ac mae fy ngŵr yn cefnogi fy newis swydd yn llwyr,'** eglura Netsai.





Yn dilyn y cwrs, unodd Netsai gydag eraill a basiodd y cwrs i ffurfio eu busnes weldio eu hunan - Star Welding. Maent yn rhentu eiddo yn lleol ac yn cynhyrchu nifer o offer amaethyddol, ynghyd â fframiau drysau a ffenestri a chynnyrch arall. **'Fy hoff waith yw gwneud hofiau. Rwy'n mwynhau'r gwahanol gamau ac rwy'n hoffi'r ffaith fy mod i'n gwneud rhywbeth y mae pawb yn y gymuned ei angen ac yn ei ddefnyddio oherwydd rydym i gyd yn ffermwyr,'** chwarddodd Netsai.

Mae hyfforddiant mewn amaethyddiaeth hinsawdd glyfar hefyd wedi ei ddarparu gan BRACT. Un dechneg arbennig y mae Netsai wedi ei ddysgu yw gwneud bwyd arbennig i'r da byw yn defnyddio deunydd lleol. **'Rydym wedi sylwi gwelliant mawr yn iechyd ein gwartheg ers inni ddechrau eu bwydo gyda hwn,'** eglura.

Mae hefyd wedi dysgu am bwysigrwydd arall gyfeirio cnydau. **'Mae plannu cnydau gwahanol wedi golygu fod gennym ddigon o fwyd ac os na all un cnwd ddygymod â sychder neu'n cael ei andwyo gan blâu a haint, mae digon o gnydau eraill inni eu bwyta a'u gwerthu,'** eglura Netsai.

---

Mae'r hyfforddiant a roddir i adeiladu gwydnwch ymhlith ffermwyr gogledd Zimbabwe yn allweddol i lwyddiant BRACT. Trwy'r hyfforddiant, maent yn gallu cryfhau eu sefyllfa a chodi eu hunain allan o dlodi, gan roi gobaith iddynt ar gyfer y dyfodol.

Trwy apêl Talentau Gobaith, bydd Bedyddwyr Cymru yn gallu bod yn bartneriaid gyda Cymorth Cristnogol a'i bartneriaid lleol yn Zimbabwe, gan sefyll mewn undod â hwy wrth iddynt barhau i ganfod ffyrdd i ffynnu mewn hinsawdd lem.

**ubc.cymru/cefnogi-cenhadaeth/apeliadau**

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o ACT Alliance. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif elusen yr Alban SC039150 Rhif cwmni DG 5171525. Nodau masnachu Cymorth Cristnogol yw'r enw Cymorth Cristnogol a'r logo. Argraffwyd ar ddeunyddiau a gafwyd o goedwigoedd a reolir yn gyfrifol. © Cymorth Cristnogol Gorffennaf 2023. Lluniau: Cymorth Cristnogol/David Brazier

Registered with FUNDRAISING REGULATOR